Wylfa Newydd

# Adroddiad ar yr Effaith Leol

Pennod 14: Sŵn a Dirgryndod

**Rhagfyr 2018**

Cyf PINS: EN010007

Gadawyd y dudalen hon yn wag yn fwriadol

## 1.0 Sŵn a Dirgryndod

## 1.1 Cyd-destun

1.1.1 Mae'r bennod hon yn nodi effeithiau posibl sŵn a dirgryndod sy'n cael eu creu gan waith adeiladu, gweithredu a datgomisiynu prosiect Wylfa Newydd. Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn cadarnhau eu bod wedi ystyried effeithiau sŵn a dirgryniad ar dderbynwyr dynol yn bennaf, sy'n cynnwys eiddo preswyl, ysgolion, cartrefi gofal, ardaloedd hamdden a Hawliau Tramwy Cyhoeddus gan gynnwys llwybrau troed. Yn nhermau cynghori ar yr effeithiau ar gynefinoedd ac ecosystemau, byddem yn cyfeirio'r Awdurdod Archwilio at sylwadau Cyfoeth Naturiol Cymru.

1.1.2 Mae'r asesiad o effeithiau sŵn a dirgryndod wedi'u cyhoeddi gan Horizon yn nogfennaeth ymgeisio'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu ganlynol, sydd wedi'i hadolygu gan Gyngor Sir Ynys Môn er mwyn hysbysu ein hasesiad o'r effeithiau;

a) *6.2.6 DA Cyfrol B – Cyflwyniad i asesiadau amgylcheddol B6 Sŵn a Dirgryndod*[1]
b) *6.2.20 DA Cyfrol B – Cyflwyniad i'r asesiadau amgylcheddol B6-1 – Monitro Sŵn Sylfaenol*[2]
c) *6.2.21 DA Cyfrol B – Cyflwyniad i'r asesiadau amgylcheddol Cais B6-2 – Adroddiad Methodoleg Modelu ac Asesu Sŵn a Dirgryndod*[3]
d) *6.3.5 DA Cyfrol C – Effeithiau Prosiect Cyfan C5 – Effeithiau sŵn a dirgryndod ar draffig*[4]
e) *6.3.29 DA Cyfrol C – Effeithiau sy'n gysylltiedig â Thraffig Ffordd (prosiect cyfan) Cais C5-1 – Mewnbwn a ? gweithredol sŵn traffig ffordd*[5]
f) *6.4.6 DA Cyfrol D - Datblygiad WNDA D6 – Sŵn a Dirgryndod*[6]
g) *6.4.23 DA Cyfrol D – Datblygiad WNDA Cais D6-1 – Allbynnau model sŵn*[7]
h) *6.5.6 DA Cyfrol E – Cyfleusterau Gorsaf Bŵer Oddi ar y Safle : AECC ESL a MEEG E5 – Sŵn a Dirgryndod*[8]
i) *6.5.14 DA Cyfrol E – Cyfleusterau Gorsaf Bŵer Oddi ar y Safle: AECC ESL a MEEG Cais E6-1 Mewnbynnau ac allbynnau model sŵn*[9]
j) *6.6.6 DA Cyfrol F – Parcio a Theithio F5 – Sŵn a Dirgryndod*[10]
k) *6.6.14 DA Cyfrol F – Parcio a Theithio Cais F6-1 – Mewnbynnau ac allbynnau Model Sŵn*[11]
l) *6.7.6 DA Cyfrol G - A5025 Gwelliannau G6 – Sŵn a Dirgryndod Priffyrdd All-lein*[12]

[1] Llyfrgell Archwilio CAIS-071
[2] Llyfrgell Archwilio CAIS -085
[3] Llyfrgell Archwilio CAIS -086
[4] Llyfrgell Archwilio CAIS -092
[5] Llyfrgell Archwilio CAIS -116
[6] Llyfrgell Archwilio CAIS -125
[7] Llyfrgell Archwilio CAIS -142
[8] Llyfrgell Archwilio CAIS -244
[9] Llyfrgell Archwilio CAIS -252
[10] Llyfrgell Archwilio CAIS -271
[11] Llyfrgell Archwilio CAIS -279
[12] Llyfrgell Archwilio CAIS -309

m) *6.7.18 DA Cyfrol G – A5025 Gwelliannau priffyrdd all-lein G6-1 – Mewnbynnau ac allbynnau model sŵn adeiladu*[13]
*6.8.6 DA Cyfrol H – Canolfan Logistaidd H – Sŵn a Dirgryndod*[14] *a)* *n*
*6.8.14 DA Cyfrol H - Canolfan Logistaidd Cais H6-1 - Mewnbynnau ac allbynnau model sŵn* [15]*a)*
*6.9.11 DA Cyfrol I - Effeithiau Cronnus Cais I4-3 - Effeithiau Cronnus Sŵn Mewn Prosiect*[16]*a)*
n) *6.9.13 DA Cyfrol I - Effeithiau Cronnus Cais I5-2 - Effeithiau Cronnus Sŵn Rhyng-Brosiect* [17]*a)*

1.1.3 Mae gan asesiadau CS Ynys Môn sŵn a dirgryndod posibl gysylltiadau hefyd gyda phenodau eraill yr Adroddiad ar yr Effaith Leol, y dylid cyfeirio atynt hefyd, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r effaith ar yr amgylchedd hanesyddol, twristiaeth, gan gynnwys yr effeithiau ar AHNE a ProWs.

1.1.4 Fel y cadarnhawyd yn Natganiad Amgylcheddol (DA) Pennod D6 Sŵn a Dirgryndod, lefelau sŵn yn ystod y dydd yn yr ardal sy'n amgylchynu Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn is na Gwerth Canllaw WHO *Canllawiau ar gyfer Sŵn Cymunedol*[18] *a)* o 55dB$L_{aeq\ T}$ sy'n diogelu'r mwyafrif o bobl rhag 'annifyrrwch cymedrol' mewn ardaloedd byw yn yr awyr agored. Mae'r lefelau sylfaenol yn y nos hefyd yn is na Gwerth Canllaw WHO *Canllawiau ar gyfer Sŵn Cymunedol* o 45dB$L_{aeq\ T}$ y tu allan i ystafelloedd gwely.

o) 1.1.5 Mae CS Ynys Môn wedi cyflawni ei ddyletswyddau yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[19] wrth wneud eu penderfyniad o ran yr effeithiau a'r dulliau i'w lliniaru. Mae iechyd a'r amgylchedd wedi'u cynnwys yn y saith nod Llesiant a'r amcanion i'w cyflawni. Felly, bydd unrhyw effeithiau negyddol cymedrol neu effeithiau niweidiol mawr o sŵn a dirgryndod yn cael effaith niweidiol ar yr amcanion llesiant ar gyfer Ynys Môn.


1.1.6 Fel rhan o Gynllun Gweithredu ynghylch Sŵn i Gymru Llywodraeth Cymru[20], mae meysydd blaenoriaeth cynllun gweithredu sŵn wedi'u nodi pan mae amlygiad i sŵn yn uchel. Ni nodwyd unrhyw ardaloedd blaenoriaeth sŵn ar Ynys Môn. Yr ardal agosaf yw ar hyd yr A4087 ym Mangor.

1.1.7 Mae Ffigur 1 isod yn cadarnhau natur y cwynion sŵn a dderbyniwyd gan Adran Iechyd yr Amgylchedd CS Ynys Môn yn y cyfnod 2009-2017. Mae'n pwysleisio mai nifer gymharol isel o gwynion a dderbyniwyd sy'n gysylltiedig â gweithgareddau a cherbydau adeiladu.

---

[13] Llyfrgell Archwilio CAIS -321
[14] Llyfrgell Archwilio CAIS -360
[15] Llyfrgell Archwilio CAIS -368
[16] Llyfrgell Archwilio CAIS -394
[17] Llyfrgell Archwilio CAIS -396
[18] Canllawiau ar gyfer Sŵn Cymunedol (Dolen)
[19] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Dolen)
[20] Cynllun gweithredu ynghylch sŵn i Gymru 2013-18 (Dolen)

**<u>Ffigur 1 Cwynion am Sŵn yn ôl Ffynhonnell (2009-2017)</u>**




## 1.2 Effeithiau a'r Sylfaen Dystiolaeth

1.2.1 Mae'r adran ganlynol yn disgrifio effeithiau prosiect Wylfa Newydd a nodwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn. Mae'r angen i gynnal a gwella iechyd a llesiant cyffredinol cymunedau sy'n agos iawn at y prif safle yn ystod y gwaith o adeiladu Prosiect Wylfa Newydd yn fater hollbwysig.

1.2.2 Mae CS Ynys Môn o'r farn ei bod yn annhebygol y bydd unrhyw effeithiau cadarnhaol o ran sŵn a dirgryniad sy'n deillio o'r gwaith o adeiladu, gweithredu a datgomisiynu Prosiect Wylfa Newydd.

1.2.3 Mae DA Pennod D6 - Sŵn a Dirgryniad yn cadarnhau y bydd angen i gontractwyr weithio yn unol â Chod Ymarfer ar gyfer Adeiladu (CoCP) Wylfa Newydd ac is God Ymarfer ar gyfer Adeiladu Prif Safle Pŵer, sy'n cynnwys strategaethau rheoli amgylcheddol ar gyfer pynciau penodol. Nodir y byddai'r Strategaethau Rheoli Sŵn a Dirgryniad yn nodi'r gofynion i ragweld, rheoli a monitro sŵn a dirgryniad drwy'r cyfnod adeiladu cyfan.

1.2.4 Mae CS Ynys Môn yn pryderu bod paragraff 6.4.27 Datganiad Amgylcheddol Pennod D6 - Sŵn a Dirgryniad yn cadarnhau y byddai Strategaethau Rheoli Sŵn a Dirgryniad 'yn cael eu cyflwyno lle bynnag y bo'n ymarferol' a hefyd y paragraff sy'n dilyn sy'n cadarnhau *cyn dechrau gweithgareddau adeiladu, y byddai'r fethodoleg a'r offer adeiladu a ffafrir yn cael eu hadolygu er mwyn nodi unrhyw gyfleoedd posibl i leihau sŵn a dirgryniad adeiladu a'r effeithiau posibl ar dderbynwyr sensitif*.

1.2.5 Nid yw hyn yn cadarnhau y bydd y strategaethau rheoli sŵn a dirgryniad a fydd wedi'u cymeradwyo ac sydd eu hangen i liniaru effeithiau posibl sŵn a dirgryniad yn cael eu gweithredu ar bob achlysur.

1.2.6 Mae CS Ynys Môn yn cydnabod bod manylion byr y strategaeth fonitro arfaethedig wedi'i chynnwys yn is-CoCP Prif Safle Gorsaf Bŵer [21]. Mae CS Ynys Môn yn ei gwneud yn ofynnol i fanylion pellach gael eu nodi yn y CoCP a'r is-CoCP o ran manylion y strategaeth fonitro a ddylai gynnwys manylion pellach am y canlynol:

a) Manylion pellach am y system amgylcheddol amser real ar y we gan gynnwys rheoli a mynediad at ddata
b) Lleoliad arfaethedig y cyfarpar monitro sŵn
c) Cadarnhad o'r trothwyon a'r lefelau sbarduno croesi trothwyon
d) Manylion y broses o ymchwilio lefelau croesi trothwyon gan gynnwys manylion ynghylch sut y bydd Horizon yn hysbysu eu hymchwiliad ac yn cadarnhau canlyniad yr ymchwiliad
e) Manylion pellach am y broses o dderbyn, ymchwilio ac ymateb i gwynion
f) Manylion pellach am y Grwpiau Cysylltu â'r Gymuned arfaethedig, gan gynnwys amlder cyfarfodydd.

1.2.7 Yn ystod cyfarfodydd Datganiad Tir Cyffredin (SoCG) mae CS Ynys Môn wedi trafod y manylion uchod gyda Horizon ac wedi gofyn iddynt nodi mewn fersiynau wedi'u diweddaru o'r CoCP a'r is-CoCP a'u cyflwyno yn y broses archwilio.

1.2.8 Mae CS Ynys Môn o'r farn y dylid lleoli lleoliad monitro o fewn campws y safle ar ôl i unrhyw feddiannaeth ddechrau, ohrewydd ar y pwynt hwn bydd yn dderbynnydd sŵn.

1.2.9 Un dull lliniaru uniongyrchol ar gyfer rheoli sŵn a dirgryniad fydd yr angen i Horizon wneud cais i CS Ynys Môn am Ganiatadau Blaenorol o dan Adran 61 Deddf Rheoli Llygredd 1974 ar gyfer pob gweithgarwch adeiladu mawr. Fel y cadarnhawyd yn Natganiad Amgylcheddol Pennod D6 – Sŵn a Dirgryniad ac Atodiad A CoCP Wylfa Newydd, bydd angen i bob cais gynnwys manylion y gwaith i'w wneud gan gynnwys manylion dulliau gweithio, manylion y cyfarpar i'w defnyddio i wneud y gwaith, asesiadau rhagweld sŵn a dirgryniad (os yw'n berthnasol) a'r mesurau rheoli sŵn arfaethedig. Nod ceisiadau Adran 61 ddylai i sefydlu bod y dulliau ymarferol gorau wedi'u defnyddio i reoli allyriadau sŵn. Fel y cadarnhwyd, gall CS Ynys Môn atodi amodau i bob caniatâd, pan fydd o'r farn bod angen mesurau ychwanegol.

1.2.10 Mae CS Ynys Môn wedi gofyn i'r Grŵp Cysylltu â'r Gymuned gyfarfod yn fisol yn hytrach nac yn chwarterol fel y cynigiwyd gan Horizon o ddechrau'r gweithgarwch ar y safle hyd at yr amser y bydd concrid First Nuclear yn cael ei arllwys, sef y cyfnod pan fydd effeithiau o ansawdd yr aer a sŵn yn fwyaf tebygol i fod yn arwyddocaol. Mae CS Ynys Môn yn credu mai hwn yw'r fforwm i sicrhau bod y gymuned leol yn derbyn yr holl wybodaeth am weithgareddau

[21] Llyfrgell Archwilio Cyfeirnod y Cais -415

ar y safle gan gynnwys deall y gwaith arfaethedig a chael eu hysbysu ynghylch unrhyw weithgareddau a allai gael effaith ar eu bywyd a'u harferion dyddiol.

1.2.11 Mae CoCP Wylfa Newydd yn nodi'r meini prawf derbynioldeb ar gyfer y Cynllun Lliniaru Sŵn Lleol Gwirfoddol sy'n cadarnhau: *Ym mhob achos, bydd mesurau inswleiddio sŵn (Cynllun Lliniaru Sŵn Lleol) LNMS yn berthnasol i ystafelloedd gwely ac ystafelloedd byw lle mae mwy o sensitifrwydd i sŵn. Mae ystafelloedd eraill, ystafelloedd gwydr, tai allan, siediau ac adeiladau allanol eraill wedi'u heithrio.*

1.2.12 Mae CS Ynys Môn yn pryderu bod ystafelloedd gwydr wedi'u heithrio o'r cynllun. Defnyddir ystafelloedd gwydr ar gyfer amrediad o ddibenion gwahanol, gan gynnwys fel ystafell fyw, ystafell eistedd, ystafell fwyta. Mae CS Ynys Môn yn gofyn i'r meini prawf derbynioldeb ar gyfer y cynllun gael eu diwygio i gynnwys ystafelloedd gwydr.

1.2.13 Er bod y Cynllun Lliniaru Sŵn Lleol Gwirfoddol i'w groesawu, nid oes unrhyw system i apelio pe byddai cais yn cael ei wrthod neu os ystyrir nad yw mesurau yn cael eu hystyried yn ddigonol gan yr Ymgeisydd. Mynegir pryder hefyd na fyddai'r mesurau lliniaru yn mynd i'r afael â'r lefelau sŵn a brofir gan fusnesau neu leoedd/mannau a ddefnyddir gan y cyhoedd (mannau addoli, ysgolion neu breswylwyr lleol mewn mannau awyr agored, gan gynnwys gerddi preifat ac ardaloedd amwynder lleol).

1.2.14 Mae CoCP Wylfa Newydd (paragraffau 8.3.14) yn cadarnhau bod y *Datganiad Amgylcheddol yn nodi nifer o dderbynwyr a allai fod yn sensitif, gan gynnwys ysgolion a allai gael eu heffeithio'n andwyol gan sŵn a phan allai mesurau inswleiddio sŵn LNMS fod yn fuddiol. Wedi'u tywys gan waith modelu'r Datganiad Amgylcheddol, bydd Horizon yn mynd i'r afael ag unrhyw dderbynwyr o'r fath ar sail achosion unigol er mwyn trafod hyn ymhellach.*

1.2.15 Mae Horizon yn cadarnhau'r effeithiau gweddilliol andwyol posibl oherwydd sŵn adeiladu o ddatblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd (WNDA) ar Eglwys Sant Padrig yng Nghemaes ac Ysgol Gynradd Cemaes. Cadarnhawyd y cytunir ar fesurau inswleiddio sŵn er mwyn lleihau neu reoli'r effeithiau gweddilliol andwyol sylweddol posibl. Fodd bynnag, mae'r posibilrwydd o allu gosod mesurau inswleiddio yn yr adeiladau hyn yn galw am ystyriaeth bellach; ar gyfer yr Eglwys, mae'n rhaid i'r ystyriaeth hon gynnwys effeithiau unrhyw inswleiddio sŵn ar werth ac esthetig yr eglwys ac i Ysgol Cemaes, yr effaith ar yr amgylchedd addysg a'r amseroedd addysgu.

1.2.16 Mae angen manylion pellach hefyd ynghylch sut y bydd Horizon yn lliniaru ac yn gwneud iawn am yr effeithiau sŵn sy'n cael eu profi gan fusnesau a lleoedd/mannau a ddefnyddir gan y cyhoedd, gan gynnwys mannau awyr agored.

1.2.17 Bydd CS Ynys Môn yn ei gwneud yn ofynnol i Horizon ddarparu adroddiadau rheolaidd ar weithredu'r LNMS. Dylai hyn gynnwys manylion adroddiadau'r arolwg, nifer yr hysbysiadau a wnaed, nifer y ceisiadau a dderbyniwyd, y

ceisiadau a gymeradwywyd ac a weithredwyd, yn ogystal â'r rhesymau dros wrthod unrhyw geisiadau.

1.2.18 Mae Horizon wedi nodi mewn cyfarfod diweddar ar y Datganiad Tir Cyffredin ei fwriad i greu dogfen gydymaith i'r LNMS a fydd yn darparu manylion pellach am y buddiannau i'w disgwyl o'r cynllun, manylion y manteision a'r anfanteision o wydr eilaidd a gwydr dwbl fel opsiynau ar gyfer lleihau sŵn, ac amlinelliad o'r broses o weithredu'r cynllun. Mae CS Ynys Môn yn galw i'r wybodaeth hon gael ei chyflwyno yn y broses archwilio.

1.2.19 O ran Strategaeth Danio Horizon, bydd CS Ynys Môn yn cyflwyno sylwadau ar wahân ar newid anfaterol Horizon i'r amserlen lle byddai tanio'n cael ei ganiatáu yn ystod cam adeiladu Prosiect Gorchymyn Caniatâd Datblygu Wylfa Newydd. Cyflwynodd CS Ynys Môn sylwadau uniongyrchol i Horizon ar y cynnig yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y newid arfaethedig.

1.2.20 Cadarnhaodd ymateb CS Ynys Môn i ymgynghoriad Horizon ein pryder, er bod Horizon yn cadarnhau eu bod yn gofyn i'r newid arfaethedig i'r Strategaeth Danio gael ei wneud ar gyfer y cyfnod o amser ar gyfer tanio er mwyn alinio'n agosach i'r hyn a nodwyd yn BS6472-2:2008 '*Canllaw i werthusiad o amlygiad dynol i ddirgryndod mewn adeiladau',* mae amseroedd dechrau a gorffen y strategaeth un awr yn hwyrach er mwyn caniatáu ar gyfer patrymau shiftiau gweithwyr ar gyfer Prosiect Wylfa Newydd, a fwriedir i leihau tagfeydd traffig. Ystyriwyd y bydd y tanio rhwng 18:00 a 19:00 ar adeg pan fydd y cymunedau lleol hynny sydd wedi'u lleoli agosaf at y safle yn sensitif iawn i'r tanio ac felly dylai'r lefel is o foddhad fod yn berthnasol i'r gweithgarwch tanio rhwng yr oriau hyn a gadarnhawyd gan BS6472-2:2008 *'Canllaw i werthusiad o amlygiad dynol i ddirgryndod mewn adeiladau'.*

1.2.21 Darperir manylion pellach yn ein gohebiaeth ar wahân, a gyflwynwyd ar Derfyn Amser 2.

## 1.3 Y Sefyllfa Bolisi

1.3.1 Mae Maen Prawf 1 Polisi PS 9 Wylfa Newydd a datblygiadau perthnasol, sef y Polisi trosfwaol ar gyfer Prosiect Wylfa Newydd, yn disgwyl i'r cynnig gael ei lunio gan unrhyw Bolisïau perthnasol yn y Cynllun ac unrhyw ganllawiau cynllunio ategol perthnasol.

1.3.2 Yn seiliedig ar y materion a godwyd yn y Bennod hon o'r Adroddiad ar yr Effaith Leol (LIR), mae'r gofynion a nodir ym meini prawf 8, 13 ac 16 Polisi PS 9 yn arbennig o berthnasol:

1.3.3 Mae maen prawf 8 yn ei gwneud yn ofynnol i gynllun a dyluniad y cynllun osgoi, lleihau, lliniaru neu wneud iawn am amrediad o effeithiau ar yr ardal leol a'r ardal ehangach, yn y tymor byr a'r tymor hwy. Mae'r amrediad o effeithiau yn cynnwys effeithiau ecolegol.

1.3.4 Mae maen prawf 13 yn nodi disgwyliad i wneud iawn i gymunedau am y faich a'r aflonyddwch y mae'r prosiect yn ei achosi.

1.3.5 Mae maen prawf 16 yn nodi disgwyliad bod y datblygwr yn darparu dull adolygu er mwyn monitro'r amrediad cyfan o effeithiau, adolygu digonldeb y mesurau lliniaru neu wneud iawn ac i wneud addasiadau fel y bo angen.

1.3.6 O ganlyniad i'r materion a godwyd yn y Bennod hon o'r LIR, mae angen ystyried gofynion y Polisïau canlynol:

1.3.7 Mae maen 7 Polisi PCYFF 2, sy'n nodi'r rhagdybiaeth yn erbyn datblygiad a fyddai'n cael effaith annerbyniol o andwyol ar iechyd, diogelwch neu amwynder deiliaid anheddau lleol, defnyddiau neu nodweddion tir ac eiddo eraill yr ardal oherwydd cynnydd mewn gweithgarwch, aflonyddwch, dirgryndod, sŵn, llwch, mygdarth, sbwriel, draeniau, llygredd golau neu fathau eraill o lygredd neu niwsans.

1.3.8 Mae Polisi ISA 1 Darparu Seilwaith yn nodi disgwyliad y byddai cyfraniad ariannol yn cael ei wneud i sicrhau gwelliannau (yn ddarostyngedig i'r profion perthnasol), gan gynnwys gwaith cysylltiedig, lle mae eu hangen i wneud cynigion yn dderbyniol.

1.3.9 Mae Canllawiau Cynllunio Atodol Wylfa Newydd yn darparu cyngor ar weithredu'r Polisïau yn y JLDP mewn cysylltiad â phrosiect Wylfa Newydd. Mae'r egwyddorion gwrthrychol a'r Egwyddorion Arweiniol yn berthnasol iawn yng nghyd-destun y Bennod hon:

1.3.10 Mae Amcan 4 Canllawiau Cynllunio Atodol Wylfa Newydd yn cadarnhau'r angen i sicrhau bod Prosiect Wylfa Newydd yn cefnogi gwelliannau i ansawdd bywyd (gan gynnwys iechyd, tai, llesiant ac amwynder) preswylwyr, ymwelwyr a gweithwyr yr Ynys yn ystod y cam o'i adeiladu a'i weithredu.

1.3.11 Mae paragraff 3.2.5 yn mynd ymlaen i ehangu ar hyn y bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy (i) Sicrhau bod mesurau yn cael eu gweithredu er mwyn lleihau sŵn, dirgryndod, amwynder gweledol ac effeithiau ar ansawdd aer sy'n deillio o'r gwaith o adeiladu a gweithredu Prosiect Wylfa Newydd drwy fesurau lliniaru priodol;

1.3.12 GP7 Diogelu iechyd, sy'n egluro'r disgwyliadau o ran y mesurau lliniaru sy'n arbennig o berthnasol i'r materion a godwyd yn y Bennod hon o'r LIR:

a) Darparu gwybodaeth am y risgiau iechyd i gymunedau lleol, ymwelwyr a busnesau;
b) Dyluniad ffisegol datblygiad newydd (gan gynnwys ystyried sgrinio, cyfyngiant a dyluniad er mwyn lleihau'r effeithiau ar dderbynwyr sensitif);
c) Mesurau lliniaru ar gyfer derbynwyr sydd wedi'u heffeithio (gan gynnwys inswleiddiad er mwyn lleihau effeithiau sŵn)
d) Mesurau yn cynnwys cyfyngu ar oriau gwaith a rheoli traffig ar gyfer y camau adeiladu a gweithredu;
e) Monitro effeithiau posibl gan gynnwys mewn cysylltiad â sŵn, ansawdd yr aer a llygredd golau;
f) Cefnogi, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, darpariaeth gwasanaethau newydd, neu wella gwasanaethau iechyd presennol, yn unol â GP6.

1.3.13 Mae elfennau eraill GP7 hefyd yn arbennig o berthnasol, ac yn ymwneud ag iechyd ac amwynder gweithwyr adeiladu ar y prif safle, a disgwyliadau CS Ynys Môn o ran gofynion/amodau'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw effeithiau andwyol posibl ar iechyd. Darperir amserlen o ofynion/amodau posibl:

a) Cyfyngiadau ar gyfanswm y nifer o symudiadau cerbydau a symudiadau yn ystod cyfnodau brig;
b) Uchafswymiau pwysau ar draffig adeiladu;
c) Cyfeirio traffig;
d) Oriau adeiladu/gweithredu;
e) Trefnu dilyniant gweithrediadau adeiladu;
f) Rheoli sŵn, llwch ac arogl;
g) Ymgynghori â'r gymuned ar faterion/gweithgareddau sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar amwynder (gan gynnwys llygredd golau).

1.3.14 Mae'r mesurau posibl i sicrhau iechyd a llesiant gweithwyr, yn cynnwys polisi iechyd corfforaethol a dosbarthu gwybodaeth am iechyd a diogelwch i weithwyr.

1.3.15 GP26 Gweithrediad a monitro, sy'n nodi disgwyliad am fframwaith monitro cadarn a fydd yn cynnwys monitro'r lefelau golau a brofir gan dderbynwyr sensitif, gan gynnwys preswylwyr a derbynwyr ecolegol.

## 1.4 Bylchau mewn gwybodaeth

1.4.1 Mae CS Ynys Môn yn galw i CoCP ac is-CoCP Wylfa Newydd gael eu diwygio i gynnwys y wybodaeth ganlynol:

a) Cadarnhad y bydd y Strategaethau Rheoli Sŵn a Dirgryndod yn cael eu gweithredu'n llawn ac nid ar sail 'lle bynnag y bo'n ymarferol' fel y cadarnhawyd ar hyn o bryd.

b) Cyflwynir manylion pellach o ran manylion y strategaeth fonitro, gan gynnwys manylion pellach am y canlynol;

i. Manylion pellach am y system amgylcheddol amser real ar y we gan gynnwys rheoli a mynediad at ddata
ii. Lleoliad arfaethedig y cyfarpar monitro sŵn
iii. Cadarnhad o'r trothwyon a'r lefelau sbarduno croesi trothwyon
iv. Manylion y broses o ymchwilio lefelau croesi trothwyon gan gynnwys manylion ynghylch sut y bydd Horizon yn hysbysu eu hymchwiliad ac yn cadarnhau canlyniad yr ymchwiliad
v. Manylion pellach am y broses o dderbyn, ymchwilio ac ymateb i gwynion
vi. Manylion pellach am y Grwpiau Cysylltu â'r Gymuned arfaethedig, gan gynnwys amlder cyfarfodydd.

c) Mae CS Ynys Môn yn galw i'r meini prawf derbynioldeb ar gyfer y Cynllun Lliniaru Sŵn Lleol gwirfoddol gynnwys ystafelloedd gwydr.

d) Manylion y cynnig adrodd ar gyfer y Cynllun Lliniaru Sŵn Lleol gwirfoddol. Bydd CS Ynys Môn yn ei gwneud yn ofynnol i Horizon ddarparu adroddiadau

rheolaidd ar weithredu'r LNMS. Dylai hyn gynnwys manylion adroddiadau'r arolwg, nifer yr hysbysiadau a wnaed, nifer y ceisiadau a dderbyniwyd, y ceisiadau a gymeradwywyd ac a weithredwyd, yn ogystal â'r rhesymau dros wrthod unrhyw geisiadau.

e) Manylion pellach y mesurau inswleiddio sŵn i leihau neu reoli'r effeithiau negyddol posibl a achosir gan effeithiau gweddilliol andwyol sylweddol er mwyn cytuno y gellir gweithredu'r mesurau hyn.

f) Manylion pellach ar sut y mae Horizon yn cynnig lliniaru a gwneud iawn am yr effeithiau sŵn a brofir gan fusnesau a lleoedd/mannau a ddefnyddir gan y cyhoedd, gan gynnwys mannau awyr agored.

## 1.5 Goblygiadau a gofynion y Gorchymyn Caniatâd Datblygu

1.5.1 Bydd yn ofynnol i CS Ynys Môn gyflawni'r swyddogaethau monitro amgylcheddol angenrheidiol ar gyfer y datblygiad cymhleth ac amrywiol hwn. Bydd swyddogaethau o'r fath yn cynnwys, ond nid ydynt wedi'u cyfyngu i fynychu cyfarfodydd cysylltu â'r gymuned, ymateb i gwynion am sŵn a dirgryndod; a wneir yn uniongyrchol i CS Ynys Môn gan breswylwyr neu fusnesau, dadansoddi data sŵn a dirgryndod ac adroddiadau sy'n gysylltiedig ag unrhyw systemau monitro amgylcheddol a chynorthwyo Horizon gyda chwynion sŵn a dirgryndod a wneir yn uniongyrchol iddynt. O ystyried natur amrywiol, graddfa a chwmpas datblygiad Wylfa Newydd ar draws Ynys Môn, bydd y galw posibl ar yr adran Diogelu'r Cyhoedd i hwyluso cymorth o'r fath yn creu mwy o faich ar yr adran.

1.5.2 Ceisir cyfraniad ariannol i gyllido'r broses o fonitro effeithiau datblygiad gan Horizon ar gyfer hyd cam adeiladu Wylfa Newydd er mwyn ariannu:

a) 1 x Swyddog Iechyd yr Amgylchedd Cyfwerth ag Amser Llawn
b) 1 x Swyddog Iechyd yr Amgylchedd Graddedig Cyfwerth ag Amser Llawn